Ysgol Gymraeg Bro Dur
Rhodfa'r Môr/Seaway Parade, Traeth Melyn/Sandfields
Port Talbot, Castell-nedd Port Talbot, SA12 7EQ
(01639) 502895
YsgolBroDurUwchradd@npt.school

22/10/2021

Annwyl Rieni / Warcheidwad

Ar ddiwedd hanner tymor prysur iawn, braf yw gallu cysylltu gyda chi er mwyn eich diweddaru am ein trefniadau a'n gweithdrefnau a rhannu newyddion.

Mae wedi bod yn hanner tymor prysur yn academaidd ac yn allgyrsiol. Mae ein clybiau wedi ail-gychwyn, a bellach mae amserlen wythnosol wedi ei rannu gyda'r disgyblion yn nodi'n glir pa weithgareddau sydd ar gael bob diwrnod. Mae rhywbeth ar gael at ddant pawb e.e. Clybiau chwaraeon (rygbi, pêl-droed, pêl-rwyd), Clwb y Gorwel ac ati. Hyderwn y bydd y cyfleoedd hyn yn adeiladu hunan-hyder ac yn cynnig cyfleoedd er mwyn datblygu sgiliau ehangach ein disgyblion. Mae ein timoedd chwaraeon – rygbi, pêl-droed a phêl-rwyd wedi chwarae gemau yn erbyn ysgolion lleol gyda chryn dipyn o lwyddiant ac edrychwn ymlaen at flwyddyn lawn o gyfleoedd i ddisgyblion o bob grŵp oedran.

Rydym wedi ail-gychwyn ein gwaith elusennol ac wedi codi arian ac ymwybyddiaeth o nifer o achosion da. Ar ddiwrnod Hello Yellow – elusen sydd yn cefnogi iechyd meddwl yr ifanc, codwyd llawer o arian gan ddisgyblion yr Ysgol trwy wisgo dillad melyn a gweithgareddau hwyliog yn ystod y dydd.



Cafwyd cryn dipyn o hwyl a sbri ar ddiwrnod Shwmae Sumae gyda gwahanol weithgareddau yn ystod y dydd. Roedd yn braf gweld y disgyblion yn eu coch, gwyn a gwyrdd yn dathlu eu Cymreictod.



**Adeiladu Cam 3 *Safle Ystalyfera***

Mae'r adeilad bellach bron yn barod, ac edrychwn ymlaen at gael derbyn yr allweddi ar y 10fed Rhagfyr. Fel y gwelwch o'r lluniau, mae adeilad yn wych mae'r cyswllt o Eirion i'r Darren bellach ar agor.







**Diogelu:**

Cafwyd diwrod ABCh hynod o lwyddiannus ar 13ydd Hydref gydag ymwelwyr yn darparu profiadau arbennig i ddisgyblion ar draws yr ysgol. Ffocwswyd ar Hiliaeth gyda gweithdy 'Show Racism the Red Card', Diogelwch ar y We gyda PC Cerian Hughes a gweithdy cyffuriau ac alcohol gyda WCADA. Daeth y Friâd Dân i'r ysgol i addysgu ein disgyblion am beryglon tân a chawsom weithdy Diogelwch ar y Ffordd. Rydym yn ddiolchgar iawn i'n partneriaid am eu cyfraniadau hynod o werthfawr i ddatblygiad ein disgyblion.





**Arholiadau Tachwedd:**

Hoffwn ddymuno'n dda i ddisgyblion Blwyddyn 11 a fydd yn sefyll arholiadau Mathemateg ym mis Tachwedd a'u hatgoffa i adolygu a chwblhau'r cyn-bapurau dros y gwyliau.

**Canolfan Gwenallt (6ed dosbarth Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur):**

Cafwyd diwrnod ABCh ardderchog ar Hydref 13ydd, lle ffocyswyd ar Anelu'n Uchel, Paratoi at Brifysgol a hefyd y Gymraeg yn y gweithle. Hoffwn ddiolch i'n partneriaid ym Mhrifysgol Abertawe a'r Drindod Dewi Sant a hefyd Met Caerdydd, y Coleg Cymraeg a'r Fenter Iaith.

Llongyfarchiadau i nifer fawr o ddisgyblion Blwyddyn 13 sydd wedi cyflwyno eu ceisiadau UCAS i brifysgolion a dymunwn bob llwyddiant iddynt yn eu cyfweliadau:

**Rhydychen:**
Sophie Richards (Bioleg), Jacob Hancock (Cyfrifiadureg), Nancy Morse (Saesneg)
**Caergrawnt:**
Evie Rees (Saesneg
**Meddygaeth:**
Seren Jones, Joy Hall, Molly Davis
**Milfeddygaeth:**
Hannah Lewis, Eleah Chapman ac Ashley Heywood
**Yn dilyn blwyddyn o brofiad gwaith:**
Sophie Jones (Meddygaeth) a Osian Davies (Deintyddiaeth).

**Mae ein gwaith pontio i 6ed dosbarth Ystalyfera Bro Dur *'Canolfan Gwenatllt'* wedi cychwyn a bydd mwy o weithgareddau yn ystod yr hanner tymor nesaf.**

**Gweithdrefanu Covid:**

Rydym yn parhau i ddilyn fframwaith newydd Llywodraeth Cymru ar reoli heintiau COVID-19 mewn ysgolion ac eisoes wedi rhoi mesurau mewn lle. Prif ffocws y fframwaith yw atal yr haint rhag cyrraedd yr Ysgol. Nodir yn glir yn y ddogfennaeth:

- 'Rhaid i unrhyw un sy'n profi yn bositif am COVID-19 hunanynysu a pheidio â dod i'r ysgol.
- Dylai unrhyw un sy'n datblygu symptomau hefyd hunanynysu a threfnu prawf'.

Yn ychwanegol at hyn, mae ein asesiad risg yn nodi:

- Dylai ddisgyblion wisgo mygydau mewn lleoliadau cymunedol (ogydd a wnewch chi sicrhau bod gan eich plentyn gorchudd wyneb ei hun ar gyfer Ysgol)

**Gwybodaeth bwysig:**

Cofiwch ein bod bellach â gwefan newydd sydd â chopiau o'r holl lythyron, gwaith gwych a llu o bethau eraill ar gyfer eich sylw. Cyfeiriad y wefan yw: ysgolystalyferabrodur.cymru

A chofiwch ein dilyn ar ein cyfrif Trydar, sef: @bro_dur ble rydym yn arddangos lluniau o ddisgyblion a gweithgareddau ynghyd â gwybodaeth bwysig yn aml. Os nad ydych yn derbyn negeseuon i'ch cyfeiriad ebost neu eich ffôn symudol, cysylltwch â Mrs Tracy Fowler yn y swyddfa er mwyn sicrhau eich bod wedi cofrestru ar gyfer ein system gyfathrebu.

**Calendr yr hanner tymor nesaf:**

Tachwedd 5ed: Adroddiadau Interim Bl 11,12,13

Tachwedd 8fed: Monitro Llyfrau Blwyddyn 9

Tachwedd 18fed: Adroddiadau Interim Bl 9&10

Tachwedd 25ain: Noson Rieni Blwyddyn 9

Tachwedd 29ain: HMS (Ysgol ar gau i ddisgyblion)

Rhagfyr 17eg: Adroddiadau Interim Bl 7&8

Edrychwn ymlaen at groesawu pob disgybl nôl atom ar ddydd Llun, Tachwedd 1af wedi'r gwyliau hanner tymor.

Diolch am eich cefnogaeth cyson bob amser.

Yn ddidwyll

Laurel Davies.

Pennaeth

Ysgol Gymraeg Bro Dur
Rhodfa'r Môr/Seaway Parade, Traeth Melyn/Sandfields
Port Talbot, Castell-nedd Port Talbot, SA12 7EQ
(01639) 502895
YsgolBroDurUwchradd@npt.school

22/10/2021

Dear parents / guardian

At the end of a very busy half term, it is pleasing to be able to contact you to update you about our arrangements and procedures and share news.

It has been a busy half term both academically and extra-curricular. Our clubs have re-started, and a weekly timetable shared with the pupils, clearly indicating what activities are available each day. There is something available to suit everyone's taste e.g. Sports clubs (rugby, football, Clwb y Gorwel etc. We trust that these opportunities will build self-confidence and provide opportunities to develop the wider skills of our pupils. Our sports teams – rugby, football and netball have played games against local schools with considerable success and we look forward to a full year of opportunities for pupils from all age groups.

We have re-started our charity work and raised money and awareness of different good causes. On #Hello Yellow day, a charity that supports the mental health of the young a considerable sum was raised by pupils at the School by wearing yellow clothing and participating in fun activities during the day.



There was a great deal of 'hwyl' on Shwmae Sumae day with an array of activities during the day. It was wonderful to see the pupils in their red, white and green celebrating their Welsh identity.



**Construction of Phase 3 Ystalyfera site**

The building is now almost ready, and we look forward to receiving the keys on 10th December. As you can see from the pictures, it is a fantastic building and the link bridge from Eirion to Darren is now complete.







**Safeguarding:** We held a very successful PSE day on 13th October with visitors providing bespoke experiences for pupils across the school. We focused on Racism with a 'Show Racism the Red Card' workshop, Web Safety with PC Cerian Hughes and a drug and alcohol workshop with WCADA. The Fire Brigade came to the school to educate our pupils about the dangers of fire and we had a Road Safety workshop. We are very grateful to our partners for their extremely valuable contributions to the development of our students.





**November Examinations:**

I would like to wish Year 11 pupils who will be sitting Mathematics examinations in November well and remind them to revise and complete the past-papers over the holidays.

**Canolfan Gwenallt:**

Our PSE day on October 13th, focused on Aiming higher, Preparing for University and also Welsh in the workplace. I would like to thank our partners at Swansea University and UWTSD and also Cardiff Met, the Coleg Cymraeg and Menter Iaith for their excellent presentations and workshops. Congratulations to a large number of Year 13 pupils who have submitted their UCAS applications to universities, we wish them every success in their interviews:

**Oxford University:**
Sophie Richards (Biology), Jacob Hancock (Computer Science), Nancy Morse (English)
**Cambridge University:**
Evie Rees (English)
**Medicine**:
Seren Jones, Joy Hall, Molly Davis
**Veterinary Science:**
Hannah Lewis, Eleah Chapman ac Ashley Heywood
**Following a gap year**
Sophie Jones (Medicine) and Osian Davies (Dentistry).

**Our transition programme for Year 11 pupils to our 6th form *'Canolfan Gwenallt'* has started and there will be a further programme of events during the next half term.**

**Covid strategies:**

We continue to follow the Welsh Government's new framework on COVID-19 infection control in schools and have already put measures in place. The main focus of the framework is to prevent infection from reaching the School. It is clearly stated in the documentation that:

- 'Anyone who tests positive for COVID-19 must self-isolate and not come to school.
- Anyone who develops symptoms should also self-isolate and arrange a test'.

In addition, our risk assessment states:

- Pupils should wear masks in community settings (**please could you ensure that your child has their own face covering for School**)

**Important information:**

We now have a new website with copies of all the letters, pupil's work and a host of other things for your attention. The website address is: ysgolystalyferabrodur.cymru

Also, remember to follow us on our Twitter account, which is: @bro_dur where we display pictures of pupils and activities along with often important information. If you do not receive messages to your email

address or mobile phone, please contact Mrs Tracy Fowler in the office to ensure you are registered for our communications system.

**Next half term calendar:**

November 5th: Interim Reports Yr 11,12,13

November 8th: Monitoring Year 9 Books

November 18th:  Interim Reports Yr 9&10

November 25th: Year 9 Parents' Evening

November 29th: Inset Day (No school for pupils)

December 17th: Interim Reports  Yr 7&8

We look forward to welcoming all pupils back to us on Monday, November 1st after the half-term holidays.

Thank you for your constant support at all times.

Yours sincerely

Head